## ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

### Cefndir

Mae'r asesiad effaith hwn yn ymwneud â *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2022* ("Rheoliadau 2022") sy'n diwygio Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") ac yn gwneud diwygiadau i reoliadau sy'n effeithio ar y gweithlu gofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Mae Rheoliadau 2022 yn diwygio *Rheoliadau Gwasanaethau a Reoleiddir (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017* i'w gwneud yn orfodol cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol mewn cartrefi gofal i oedolion a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd o 1 Hydref 2022. Byddant yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflogi a/neu gymryd ymlaen dan gontract yr unigolion hynny yn unig sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Nod y diwygiadau arfaethedig hyn yw cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i broffesiynoli'r gweithlu gofal cymdeithasol a chynyddu sicrwydd y cyhoedd bod gan y categorïau hyn o weithwyr gofal cymdeithasol y sgiliau a'r cymwysterau i wneud eu gwaith mewn modd proffesiynol, tosturiol. Bydd hefyd yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd eu bod yn gweithio'n unol â Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol y cytunwyd arnynt, fel yr amlinellwyd gan y rheoleiddiwr gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC). Mae'r cynigion hyn yn adlewyrchu'r darpariaethau sydd eisoes ar waith ar gyfer cyflogi rheolwyr cartrefi gofal i oedolion, rheolwyr a gweithwyr mewn cartrefi gofal i blant, a rheolwyr a gweithwyr mewn gwasanaethau cymorth cartref. Mae'r cynigion hefyd yn ceisio codi proffil y sector.

### Effaith

Bydd proffesiynoli yn helpu i sicrhau bod sgiliau gweithwyr gofal cymdeithasol yn cael eu cydnabod yn ehangach. Rydym am i'r cyhoedd fod yn fwy ymwybodol bod y gweithlu wedi'i hyfforddi'n dda, yn ymroddedig ac yn gymwysedig. Datblygwyd y polisi y tu ôl i'r rhaglen hon mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ar draws y sector gofal cymdeithasol. Drwy gofrestru, rydym am roi mwy o gyfleoedd i'r gweithlu barhau â'u datblygiad drwy gael mwy o fynediad at yr adnoddau a'r hyfforddiant a ddarperir drwy reoleiddiwr y gweithlu. Mae cofrestru â GCC yn rhoi mynediad i weithwyr at fframweithiau hyfforddi a datblygu cadarn ac yn helpu i sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant a datblygiad mwy cyson. Bydd hyn yn helpu gweithwyr i ddangos tystiolaeth o'u sgiliau wrth symud rhwng rolau. Fel rhan o'r broses gofrestru, rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol ymrwymo i God Ymarfer cydnabyddedig y cânt eu dwyn i gyfrif yn ei erbyn. Mae rheoleiddio'r gweithlu gan GCC yn rhoi mwy o atebolrwydd i'r gweithlu ac yn gyfle i leisio eu barn pan fydd digwyddiad yn digwydd.

Mae'r sector yn wynebu argyfwng recriwtio ar hyn o bryd ac er na fydd cofrestru ar ei ben ei hun yn mynd i'r afael â'r her hon, yr uchelgais tymor hwy, fel rhan o becyn cymorth ehangach, yw codi proffil y sector fel lle proffesiynol i weithio lle mae cyfleoedd i unigolion ddatblygu eu gyrfaoedd, gyda'r nod o wella recriwtio a chadw staff.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gyfrifol am reoli cofrestr y gweithlu, ac am sicrhau bod gweithwyr a chyflogwyr yn y sector yn ymwybodol o'r gofyniad i gofrestru. Arolygiaeth Gofal Cymru fydd yn gyfrifol am sicrhau bod darparwyr gofal cymdeithasol yn cadw at y rheoliadau.

## ADRAN 8. CASGLIAD

(Noder y bydd yr adran hon yn cael ei chyhoeddi)

**8.1 Sut y mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?**

*Nid yn unig y mae'n ddyletswydd arnom i ymgysylltu ac ymgynghori mewn rhai amgylchiadau, ond mae tystiolaeth glir bod cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid yn ganolog i bolisi a chyflawni llwyddiannus. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym wedi ymrwymo i gynnwys pobl. Disgrifiwch sut rydych wedi cymryd rhan:*

- *Plant a'u cynrychiolwyr;*
- *Pobl sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;*
- *Siaradwyr Cymraeg a grwpiau arbenigol ym maes y Gymraeg; a*
- *Pobl eraill y gallai'r cynnig effeithio arnynt.*

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal dau ymgynghoriad ar y cynigion. Cynhaliwyd y cyntaf rhwng 26 Gorffennaf a 16 Hydref 2019 a chynhaliwyd yr ail rhwng 21 Rhagfyr 2021 a 28 Chwefror 2022. Cafodd y dogfennau ymgynghori eu cyhoeddi yn ddwyieithog ar wefan Llywodraeth Cymru ac roeddent yn cynnwys ffurflen ymateb y gellid ei chyflwyno drwy e-bost neu mewn copi caled.

Darparwyd pob fersiwn o'r ymgynghoriad ar y tudalennau gwe canlynol -

https://gov.wales/implementation-regulation-and-inspection-social-care-wales-act-2016

https://llyw.cymru/rhoi-deddf-rheoleiddio-ac-arolygu-gofal-cymdeithasol-cymru-2016-ar-waith

https://gov.wales/implementation-regulation-and-inspection-social-care-wales-act-2016-0

https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-rheoleiddio-ac-arolygu-gofal-cymdeithasol-cymru-2016?_ga=2.148252663.1126364584.1651055068-1208068373.1625652020

Ar gyfer y digwyddiad ymgynghori cyntaf, ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau diwygio drafft, cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori yng Nghaerdydd a Wrecsam hefyd i gyflwyno'r cynigion drafft i orfodi cofrestru ar gyfer gofal cartref ac i agor y cyfnod cofrestru "gwirfoddol" ar gyfer gweithwyr cartrefi gofal i oedolion o fis Ebrill 2020 cyn y dyddiad cau gorfodol nesaf ym mis Ebrill 2022 i randdeiliaid ac i glywed unrhyw gwestiynau neu sylwadau'n uniongyrchol. Daeth cyfanswm o 20 o bartïon â buddiant o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i'r digwyddiadau hyn, a oedd yn anelu at annog rhanddeiliaid i ymateb ac i alluogi'r rhai sy'n mynychu i:

- gael trosolwg o'r fframwaith deddfwriaethol drafft a newidiadau allweddol a ddaw i rym yn ei sgil;
- gwirio eu dealltwriaeth o'r cynigion a gofyn am eglurder, os oes angen; ac
- ystyried y goblygiadau posibl ar gyfer eu swydd a'u sefydliad.

Mynychodd Llywodraeth Cymru sawl fforwm arall hefyd megis y Grŵp Llywio Cartrefi Gofal a'r Fforwm Darparwyr Cenedlaethol i ateb unrhyw gwestiynau cychwynnol ar y rheoliadau drafft neu gyfeiriad y polisi.

O ran y diwygiadau i'r hysbysiadau yn y gyfres o reoliadau darparwyr[1] gwasanaethau a gynigiwyd yn ddiweddarach, cynhaliwyd ymgynghoriad byr â ffocws penodol. Bu inni ysgrifennu yn uniongyrchol at bob sefydliad darparwyr gwasanaeth anghorfforedig gan ddefnyddio sianeli cyfathrebu AGC ym mis Rhagfyr, gan ganiatáu mis iddynt ymateb. Cyhoeddwyd y cynnig hwn hefyd ar wefan AGC a chynhwyswyd yr wybodaeth yng nghylchlythyr AGC a ddosbarthwyd i bob darparwr sydd wedi cofrestru ar gyfer y cyfathrebiadau hyn. Ni chafwyd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

Cafodd manylion yr ymgynghoriad eu cylchredeg i ystod o randdeiliaid allweddol a chyrff cynrychioliadol gan gynnwys pobl hŷn (hy Age Cymru), grwpiau plant (hy Voices From Care Cymru) grwpiau anabledd (hy Anabledd Cymru) a grwpiau

---

[1] Y rhain yw:

a. Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017;

b. Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019;

c. Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019;

d. Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019; a

e. Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.

lleiafrifol a grwpiau ethnig  (hy Race Council Cymru) a Chomisiynydd y Gymraeg. Daeth sylwadau i law oddi wrth 30 o'r sefydliadau hyn ac maent wedi'u cynnwys yn ein dadansoddiad o'r ymatebion.

Ar gyfer yr ail ymarfer ymgynghori, a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Chwefror 2022, oherwydd y cyfyngiadau pandemig parhaus, cynhaliwyd seminar ymgynghori ar-lein ar y cyd â rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) ar 15 Chwefror 2022.  Roedd hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru drafod gyda rhanddeiliaid ein cynigion cofrestru gorfodol diweddaraf a'n Rheoliadau drafft i randdeiliaid a chlywed unrhyw gwestiynau neu sylwadau'n uniongyrchol.  Roedd yn caniatáu i GCC ymgynghori ar newidiadau cofrestru eraill a oedd yn gysylltiedig â'r broses gofrestru, er eu bod ar wahân i gynigion Llywodraeth Cymru. Roedd y sector gofal cymdeithasol yn deall cynigion Llywodraeth Cymru, ac yn cydnabod bod hyn yn dilyn y dull gweithredu a ddefnyddiwyd ar gyfer gweithwyr gofal cartref.  Daeth cyfanswm o 94 o bartïon â buddiant o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i'r digwyddiad hwn, a oedd yn anelu at annog rhanddeiliaid i ymateb ac i alluogi'r rhai sy'n mynychu i:

- ennill dealltwriaeth ynghylch a oedd y fframwaith deddfwriaethol drafft a'r newidiadau allweddol a ddaw i rym yn ei sgil yn glir ac yn gryno i'r sector ddeall a cheisio eglurder, os oes angen; a
- ystyried y goblygiadau posibl ar gyfer eu swydd a'u sefydliad.

Cynhaliwyd dadansoddiad o'r ymatebion ac fe'i postiwyd i'n gwefan yn https://llyw.cymru/rhoi-deddf-rheoleiddio-ac-arolygu-gofal-cymdeithasol-cymru-2016-ar-waith.

**8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

*Dylid defnyddio'r adran hon i helpu i gwblhau adran 6 o'r templed MA*

*Crynhowch yr effeithiau mwyaf arwyddocaol ar bobl, diwylliant a'r Gymraeg, economi ac amgylchedd Cymru, a ddisgwylir o ganlyniad i'r camau gweithredu arfaethedig. Disgrifiwch y themâu a ddaeth i'r amlwg o gynnwys pobl. Cyfeiriwch at y saith nod llesiant ac amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Gwrthgyferbynnwch ag effaith camau gweithredu presennol Llywodraeth Cymru os yw'n briodol.*

*Effeithiau cadarnhaol*

Er bod manteision i'r gweithlu ei hun, amcan cyffredinol cofrestru yw rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ynghylch cymwysterau, sgiliau ac atebolrwydd y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'r rheoliadau'n anelu at hybu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i broffesiynoli'r gweithlu gofal cymdeithasol, gan sicrhau bod gan y gweithlu fynediad

i'r fframweithiau hyfforddi a datblygu cadarn a'u bod yn ymrwymo i'r cod ymarfer perthnasol i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal.

Bydd y broses gofrestru yn caniatáu i'r rheoleiddiwr gasglu gwybodaeth fwy cywir am y gweithlu, gan gynnwys nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sector. Bydd hyn yn helpu gyda chynllunio a chefnogi'r gweithlu. Gall y data a gesglir drwy gofrestru hefyd helpu i sicrhau bod cyfleoedd i weithwyr ddefnyddio eu sgiliau a chael gafael ar ddeunyddiau a chyrsiau hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallai hyn hefyd gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n hyderus i ddarparu gwasanaethau i unigolion trwy gyfrwng y Gymraeg.

*Effeithiau negyddol*

Bydd effaith o ran cost ar ddarparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol (h.y. y sector preifat, busnesau ac elusennau) a gweithwyr, gan fod ffi gofrestru yn cael ei chodi i helpu i dalu'r gost o weinyddu rheoleiddio gofal cymdeithasol. Bydd costau hyfforddi ychwanegol hefyd i sicrhau bod gan bob gweithiwr y cymhwyster L2 gofynnol. Er hynny, mae rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), wedi ymgynghori'n eang â'r sector wrth bennu'r ffi gofrestru i sicrhau bod swm cymesur yn cael ei bennu ar gyfer y ffi a'i fod yn gymaradwy â ffioedd cyrff rheoleiddio eraill ledled y DU. Hefyd, rhoes GCC y cynnydd yn y ffi ar waith yn raddol i helpu staff (a chyflogwyr lle telir hyn fel cymhelliad i gadw staff) i dalu'r costau hyn. Mae cyllid tuag at hyfforddiant a datblygiad ar gael, er enghraifft, drwy brentisiaethau, ac mae'r sector eisoes yn cyfrannu'n sylweddol at hyfforddi staff drwy Gofal Cymdeithasol Cymru. Nid yw *baich* ychwanegol rheoliadau 2022 yn cyfateb i gost lawn hyfforddi pob gweithiwr na chyflenwi ar gyfer amser i ffwrdd o'r gweithle. Edrychir yn fanylach ar effeithiau pellach ar fusnesau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu**
- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae ein hasesiadau effaith yn awgrymu y bydd y Rheoliadau sy'n ymwneud â chofrestru a chymhwyster y gweithlu yn dod â nifer o fanteision cadarnhaol i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. O ddarparu gweithlu proffesiynol i ddarparwyr gwasanaethau i ddarparu gofal a chymorth o safon i'r oedolion hynny sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn. Disgwylir i staff gadw at God Ymarfer Proffesiynol sy'n cynnwys sicrhau bod camau gweithredu yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Trwy geisio sicrhau bod gweithwyr sy'n parhau i fod yn broffesiynol a medrus gyda llwybrau gyrfa clir a gwell boddhad o ran swyddi, rydym yn gobeithio gweld gwelliant yn nifer y staff sy'n cael eu cadw a fydd yn gwella cynaliadwyedd y sector trwy fwy o ddilyniant o ran gofal a gwell cadernid busnes.

Mae'r rheoliadau'n hybu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i godi proffil y gweithlu gofal cymdeithasol a'r sector yn ei gyfanrwydd. Gyda gwell cydnabyddiaeth o'r sgiliau

cymaradwy rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gallwn fwrw ymlaen ag ymrwymiad “Cymru Iachach” tuag at integreiddio gwasanaethau yn well, gwell hyfforddi a datblygu a chryfhau'r cyfathrebu rhwng staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol i adeiladu gwasanaethau gofal a chymorth mwy cadarn at y dyfodol.

Mae'r ymgyrch denu, recriwtio a chadw, Gofalwn.cymru, yn strategaeth hirdymor i gynyddu nifer y gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol yn ystod y degawd nesaf ac i warantu Gwasanaethau Cymdeithasol o safon. Mae'r ymgyrch yn dangos yr ystod o rolau ac amrywiaeth y cyfleoedd datblygu gyrfa sydd ar gael yn y diwydiant, yn esbonio'r sgiliau a'r gwerthoedd y mae eu hangen, ac yn pwysleisio'r hyn sy'n gwneud gwaith proffesiynol yn y maes hwn yn werthfawr fel y mae dinasyddion sy'n mwynhau manteision Gwasanaethau Cymdeithasol wedi tystio. Mae cyfres o hysbysebion cenedlaethol wedi ennyn diddordeb yn y sector a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i fanteisio ar hyn a throi hyn yn bobl sy'n ymuno â gofal cymdeithasol.

Gan weithio gyda'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, sef grŵp partneriaeth gymdeithasol o lywodraeth leol, undebau llafur a darparwyr gwasanaethau, mae Llywodraeth Cymru wedi dilyn ei gyngor ar y ffordd orau o gyflawni'r ymrwymiad hwn heb ansefydlogi'r sector bregus a chymhleth hwn. O fis Ebrill 2022, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu ei hymrwymiad i ddarparu'r Cyflog Byw Gwirioneddol (RLW) ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru yn ystod y tymor hwn o'r Senedd. Mae hwn yn fan cychwyn ar gyfer gwella telerau ac amodau gweithwyr gofal cymdeithasol. Bydd hyn hefyd yn helpu i godi proffil y sector a hefyd yn helpu i gadw'r gweithlu.

Byddai'r camau hyn yn helpu i gyflawni nifer o'r saith nod llesiant (Cymru Gydnerth, Cymru Lewyrchus, Cymru Fwy Cyfartal a Chymru â Diwylliant Bywiog lle mae’r Gymraeg yn Ffynnu) ond yn bwysicach na hynny mae ganddynt fanteision hirach i unigolion a busnesau.

Fel y cydnabyddir gan yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg, bydd gweithwyr yn gallu cwblhau'r cofrestriad yn ddwyieithog a bydd y broses hon yn caniatáu inni gasglu data gwell. Byddwn yn parhau i weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ddeall sut y gellir defnyddio'r data hwn i wella recriwtio a chadw ymhlith y rhan hon o'r gweithlu. Ochr yn ochr â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn o bobl erbyn 2050, gall casglu gwybodaeth fwy cywir am nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu helpu cyflogwyr ym maes gwasanaethau gofal a chymorth i ddarparu gwasanaethau mwy penodol a phwrpasol i'w cwsmeriaid i helpu i feithrin cadernid a chynaliadwyedd.

O ran yr effeithiau ar gydraddoldeb a nodwyd, byddwn yn codi'r rhain gyda rheoleiddiwr y gweithlu, sef Gofal Cymdeithasol Cymru, ac yn gweithio gyda hwy i hyrwyddo mwy o amrywiaeth yn y gweithlu gofal cymdeithasol ac i greu gweithlu sy'n adlewyrchu cymdeithas.

**8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i fonitro a gwerthuso cynnydd cofrestru a phrofiadau gweithwyr o'r broses gofrestru, gan gynnwys drwy'r cyfarfodydd atebolrwydd chwarterol. Rydym hefyd yn dal mewn cysylltiad rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol yn y sector, gan gynnwys undebau a chynrychiolwyr darparwyr, lle y trafodir materion yn ymwneud â chofrestru gan gynnwys ei effaith ar ddarparwyr a gweithwyr gofal cymdeithasol.

*Pa gynlluniau sydd ar waith ar gyfer adolygu a gwerthuso ar ôl gweithredu?*

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu cynlluniau i oruchwylio'r gwaith o fonitro a gwerthuso ein cynigion. Mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio oherwydd y pandemig a newidiwyd y ffocws i gefnogi'r sector. Byddwn yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ailddechrau'r gwaith hwn ac i ddeall effeithiau cofrestru gorfodol ar y gweithlu, recriwtio a chadw staff.